Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

# GWAITH GWELLA LLWYBRAU I GERDDWYR YNG NGHOED DARCY, SGIWEN A MYNACHLOG NEDD

## RHESTR O DERMAU ELFENNAU DYLUNIO TEITHIO LLESOL

Am ragor o wybodaeth, ebostiwch os gwelwch yn dda – roadsafetyl@npt.gov.uk

| GWELLIANNAU I GROESFANNAU CERDDWYR/BEICWYR: | | |
|---|---|---|
| **1.** | **CROESFAN TWCAN (GYDA GOLEUADAU)**<br><br>Mae croesfan twcan yn groesfan sy'n gadael i gerddwyr a beicwyr groesi'r ffordd yn ddiogel ar yr un pryd. Mae'r uned gwasgu botwm yn dangos symbolau coch a gwyrdd ar gyfer cerdded a beicio, felly mae'n dangos pryd mae'n ddiogel i groesi'n glir. Mae synwyryddion yn helpu i addasu'r amser croesi, gan roi amser ychwanegol os oes ei angen ar bobl a helpu pawb i groesi'n gyfforddus ac yn ddiogel. |  |
| GWELLIANNAU I GROESFANNAU CERDDWYR/BEICWYR: | | |
| **2.** | **CYRBAU ISEL A PHALMANT CYFFYRDDOL WRTH GROESFAN ANFFURFIOL**<br><br>Mae arwynebau uchel y gellir eu teimlo o dan draed yn rhybuddio ac yn tywys pobl ddall neu rannol ddall. |  |

Am ragor o wybodaeth, ebostiwch os gwelwch yn dda – roadsafetyl@npt.gov.uk

| GWELLIANNAU I GROESFANNAU CERDDWYR/BEICWYR: | | |
|---|---|---|
| **3.** | **MAN CROESI I GERBYDAU**<br><br>Mae hyn yn ei wneud yn haws i gerddwyr groesi ffordd gerbydau dros y droedffordd |  |

| GWELLIANNAU I GROESFANNAU CERDDWYR/BEICWYR: | | |
|---|---|---|
| **4.** | **CROESFAN SEBRA AR BLATFFORM UWCH**<br><br>**Mae croesfan sebra ar blatfform uwch yn groesfan sebra ar blatfform/fwrdd uwch er mwyn amlygu'r groesfan ac arafu cerbydau wrth iddynt agosáu at y cyfleuster croesi. Mae hefyd yn ei gwneud yn haws ac yn fwy cyfforddus i gerddwyr groesi'r ffordd.** |  |

Am ragor o wybodaeth, ebostiwch os gwelwch yn dda – [roadsafetyl@npt.gov.uk](mailto:roadsafetyl@npt.gov.uk)

| GWELLIANNAU LLWYBRAU BEICIO: | | |
|---|---|---|
| 5. | **LLWYBR CERDDED A BEICIO A RENNIR**<br><br>Mae llwybr defnydd a rennir yn llwybr sydd ar gael i'w ddefnyddio gan gerddwyr a beicwyr. Mae'n cynnig defnydd hyblyg sy'n gallu darparu ar gyfer gwahanol fathau o symud. |  |
| **MESURAU LLEIHAU TRAFFIG:** | | |
| 6. | **CROESFAN Â BWRDD WEDI'I GODI**<br><br>Mae ffordd wedi'i chodi'n dwmpath ffordd ag arwyneb gwastad. Mae'n pwysleisio presenoldeb cyffordd ac yn lleihau cyflymder cerbydau ar y ffordd i'r cyfleuster croesi. Mae hefyd yn ei gwneud yn haws ac yn fwy cyfforddus i gerddwyr groesi'r ffordd. |  |
| 7. | **CYFFORDD Â BWRDD WEDI'I GODI**<br><br>Mae cyffordd â bwrdd wedi'i godi'n gyffordd lle mae holl ardal y gyffordd wedi'i chodi i'r un lefel â'r palmant neu lwybr defnydd a rennir gerllaw. Mae hyn yn creu gofod mwy gwastad a gweladwy sy'n annog cerbydau i arafu wrth iddynt fynd heibio. Mae'n gwneud y groesfan yn gliriach ac yn fwy cyfforddus i bobl sy'n cerdded, olwyno a beicio, gan helpu pawb i symud yn fwy diogel o amgylch y gyffordd. |  |

Am ragor o wybodaeth, ebostiwch os gwelwch yn dda – roadsafetyl@npt.gov.uk